11EG O FEDI

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

Am wythnos hyfryd rydym wedi'i chael yn yr ysgol! Mae'r plant wedi ymgartrefu'n dda iawn yn eu dosbarthiadau,ac mae'r disgyblion newydd wedi dechrau teimlo'n gartrefol yn eu hamgylchedd newydd.
Mae wedi bod yn bleser gweld pawb yn dechrau'r flwyddyn mor gadarnhaol.

Heddiw rydym wedi danfon y cyflwyniadau dosbarth atoch. Mae'r cyflwyniadau yn cynnwys gwybodaeth fanwl am athro/athrawes eich plentyn, trefniadau'r dosbarth ar gyfer y flwyddyn a hefyd trosolwg o waith y tymor ar gyfer dosbarth eich plentyn.Os oes gennych unrhyw arbenigedd neu sgiliau penodol yr hoffech eu rhannu, neu os hoffech gyfrannu mewn unrhyw ffordd at ein cwricwlwm, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Mae cyfraniadau gan rieni a'r gymuned yn ffordd wych o gyfoethogi profiadau dysgu ein plant.

Mae ein clybiau ar ôl  ysgol yn ailgychwyn ddydd Llun. Mae amserlen lawn y clybiau wedi'i chynnwys yn y cylchlythyr hwn.Mae'r clybiau yn agored i bob plentyn, ond gofynnwn i chi gofrestru eich plentyn ymlaen llaw drwy ParentPay.

Cofiwch hefyd drefnu apwyntiad ar gyfer Noson Rieni. Mae'r manylion a'r dolenni perthnasol wedi'u cynnwys yn y cylchlythyr hwn er mwyn i chi allu trefnu eich apwyntiad.

## Calendr

**Clybiau allgyrsiol yn ail gychwyn 14.9.26**

**Nosweithiau Rhieni Derbyn i flwyddyn 5 21/22 o Fedi**

**Nosweithiau Rhieni Blwyddyn 6 6/7 o Hydref**

# Clybiau Tymor yr Hydref

Eleni, dyma amserlen clybiau Tymor yr Hydref. Cofiwch fod y clybiau yn agored i bawb, ond bydd angen i chi gofrestru eich plentyn trwy Parent Pay. Diolch i'r staff bydd yn cynnal y clybiau yma yn wythnosol.

Bydd y clybiau yn gorffen am 4.30 a gofynnwn i rieni gasglu yn brydlon.

Mae ymarfer côr bl 5 a 6 ar fore dydd Mercher am 8.30. Gofynnwn yn garedig i'r disgyblion ddod mewn trwy brif fynedfa'r ysgol a mynd i'r neuadd fach.

| Dydd Llun<br>Monday | Pêl droed bechgyn Bl 5 a 6<br>Boys football<br>Y 5 and 6<br>3.30-4.30 | Clwb Celf Bl 2<br>Art Club Y 2<br>3.30-4.30 | |
|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth<br>Tuesday | Pêl droed cymysg Bl 4<br>Y4 mixed football<br>3.30-4.30 | | |
| Dydd Mercher<br>Wednesday | Rygbi bechgyn Bl 5 a 6<br>Boys rugby Y 5 and 6<br>3.30-4.30 | Pêl rwyd Bl 5 a 6<br>Netball Y 5 and 6<br>3.30-4.30 | Côr Bl 5 a 6<br>Y 5 and 6 choir<br>8.30 - 9.00 |
| Dydd Iau<br>Thursday | Pêl droed merched Bl 5 a 6<br>Girls football<br>Y 5 and 6<br>3.30-4.30 | Clwb Hwyl a Sbri Blwyddyn 3<br>Hwyl a Sbri Club<br>Year 3<br>3.30-4.30 | |
| Dydd Gwener<br>Friday | Dancefit<br>3.30-4.30 | | |

## Y GRhA

## Coffi, cymdeithasu a chwarae!

### Digwyddiad cymdeithasol i rieni a phlant y dosbarth Meithrin a Derbyn

Ar nos Iau'r 24ain o Fedi, rydym yn estyn croeso cynnes i rieni'r Feithrin a'r Derbyn (a'r plant!) i ymuno gyda ni yn y neuadd fawr. Bydd cyfle i gymdeithasu a dod i adnabod rhieni newydd. Bydd digon o goffi a the,a chastell sboncio i'r plant. Croeso mawr i bawb! Bydd y digwyddiad yn dechrau am 3.15 ac yn gorffen am 4.30. Diolch yn fawr i'r GRhA am drefnu.

## Bws Beics

Bydd y Bws Beics yn ail gychwyn y tymor yma ac mae croeso mawr i bawb ymuno gyda ni.
Dyma ddyddiadau'r Bws Beics ar gyfer tymor yma -
2/10/26
6/11/26
11/12/26

Diolch i'r holl wirfoddolwyr sy'n helpu i gynnal y Bws Beics.

## Nosweithiau Rhieni Tymor yr Hydref

Bydd nosweithiau rhieni ar gyfer disgyblion Derbyn i Flwyddyn 5 yn cael eu cynnal ar nos Lun a nos Fawrth, yr 21ain a'r 22ain o Fedi.

Bydd nosweithiau rhieni ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ar nos Fawrth a nos Fercher y 6ed a'r 7ed o Hydref.

Bwriad y sesiynau hyn yw cynnig cyfle i chi gyfarfod ag athro neu athrawes eich plentyn, trafod sut mae eich plentyn wedi ymgartrefu yn y dosbarth newydd, ac i ofyn unrhyw gwestiynau neu rannu pryderon sydd gennych.

Mae'r ddolen ar gyfer trefnu apwyntiad gyda'r athro neu'r athrawes ar Arbor.

## Ceiniogau Caredigrwydd a Cymraeg yn 1af

Eleni byddwn yn cychwyn menter “Ceiniogau Caredigrwydd”, sy’n annog ac yn gwobrwyo ein disgyblion am bob gweithred o garedigrwydd yn yr ysgol. Bob wythnos, byddwn yn dathlu’r dosbarth sydd wedi dangos y mwyaf o garedigrwydd ac wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i eraill. Mae’n wych gweld cymaint o weithredoedd bach o garedigrwydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i’n cymuned ysgol yn barod!

Bydd ein menter “Cymraeg yn Gyntaf” hefyd yn parhau. Byddwn yn dathlu a gwobrwyo disgyblion am ddefnyddio’r Gymraeg yn wych, gyda sticeri a bandiau braich i gydnabod eu hymdrechion. Ac, wrth gwrs, uchafbwynt yr wythnos yw pan fydd y dosbarth cudd yn dathlu eu llwyddiant drwy wneud y Conga Cymraeg ar hyd y coridor!

Mae’n ffordd arbennig o ddathlu ein llwyddiannau a dangos pa mor wych yw defnyddio’r Gymraeg yn Ysgol Treganna.

## Patrwm Iaith yr Wythnos

Mae gen i…?
Does gen i ddim…

**Her**

Yn ffodus, mae gen i…
Yn anffodus, does gen I ddim…

**Testun trafod yr wythnos**

Beth petai dim ceir?

**Cân yr wythnos**

Adwaith - Lan y Môr

**Idiom/ Dihareb yr wythnos**

Yn wên o glust i glust